**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Gwener, 14 Chwefror 2020 am 10.00am**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | J P Curtice | N J Davies |
| P Downing | S J Gallagher | P Lloyd |
| H M Morris | C L Philpott | L G Thomas |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Lyndsay Thomas | Prif Gyfreithiwr |
| Yvonne Lewis | Arweinydd Tîm, Trwyddedu |
| Richard Jenkins | Swyddog Trwyddedu |
| Samantha Woon | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Lisa Elias | Uwch-gynorthwy-ydd Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: B J Rowlands ac L V Walton

---

## 55 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 56 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar 10 Ionawr 2020 yn gofnod cywir.

## 57 Gwahardd y Cyhoedd

Gofynnwyd i'r Pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**58 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat - MSR**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MSR.

Esboniodd MSR, yng nghwmni Mr W, Cyfreithiwr, amgylchiadau'r digwyddiad, a chyflwynodd rhesymau dros pam mae MSR yn ddiogel ac yn addas erbyn hyn i fod yn ddeiliad trwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd gwrthod** cais MSR am drwydded yrru cerbyd hacni a hurio preifat gan nad oedd MSR wedi sicrhau'r aelodau ei fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

**59 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 - Cais am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat - MAA**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MAA.

Esboniodd MAA yr amgylchiadau mewn perthynas â'r cais ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd cymeradwyo** cais MAA am drwydded i yrru cerbyd hacni a hurio preifat tan 25/06/2020.

**60 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 – Cais am drwydded gyfyngedig i yrru cerbyd hacni a hurio preifat – MHIF**

Manylodd Arweinydd y Tîm Trwyddedu ar yr wybodaeth gefndir mewn perthynas ag MHIF.

Esboniodd MHIF, yng nghwmni Mr S, Cyfreithiwr, a Mr F, amgylchiadau'r drosedd ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) **Diddymu** trwydded yrru cerbydau hacni a hurio preifat MHIF gan nad oedd MHIF wedi sicrhau'r aelodau ei fod yn berson diogel ac addas i gadw'r drwydded.
2) Ni chymerir unrhyw gamau eraill mewn perthynas â thrwydded cerbyd MHIF.

## 61 Y Diweddaraf am Gamau Gweithredu Di-oed/Canlyniadau Apeliadau

**Nodwyd** y diweddaraf am Gamau Gweithredu Di-oed/Canlyniadau Apeliadau.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.00pm

**Cadeirydd**